**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Canlyniadau Safon Uwch, TGAU a Bagloriaeth Cymru 2009

## Papur Ymchwil

Medi 2009

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg ar ganlyniadau dros dro Safon Uwch a TGAU yng Nghymru yn 2009. Caiff y canlyniadau eu cymharu â chanlyniadau 2008 a chanlyniadau Lloegr.

Mae'r papur hefyd yn rhoi crynodeb o ganlyniadau dros dro Bagloriaeth Cymru ar gyfer haf 2009 ac yn eu cymharu â chanlyniadau 2008.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r cyfan o'r 60 Aelod Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu ysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosib i roi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylw ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallech eu hanfon at y cyfeiriad post neu ebost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur drwy safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar: www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ebost: MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk

Rhif ymholiad: 09/2840

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Canlyniadau Safon Uwch, TGAU a Bagloriaeth Cymru 2009

Papur Ymchwil

Siân Hughes

Medi 2009

Rhif dogfen: 09/027

© Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009
© National Assembly for Wales Commission 2009

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

# Cynnwys


**1. Safon Uwch** ........ 2

**2 TGAU** ........ 4

**3. Bagloriaeth Cymru** ........ 5

3.1 Diplomâu Canolradd a Sylfaen ........ 6
3.2 Sylfaen ........ 6
3.3 Canolradd ........ 6
3.4 Uwch Ddiploma ........ 7

**4. Ffynonellau gwybodaeth** ........ 8

# Canlyniadau Safon Uwch, TGAU a Bagloriaeth Cymru 2009

## 1. Safon Uwch

Cyhoeddwyd canlyniadau dros dro[1] Safon Uwch 2008 ar gyfer Cymru a Lloegr ar 20 Awst 2009.

- Mae'r gyfradd llwyddiant gyffredinol wedi aros yr un fath yng Nghymru yn 2008 ac wedi codi ychydig yn Lloegr. Mae cynnydd hefyd yn y nifer a gafodd raddau uwch (A-C) yng Nghymru a Lloegr.
- Yn 2008, cafodd myfyrwyr Cymru fwy o raddau A-C na myfyrwyr Lloegr. Roedd canran y myfyrwyr a gafodd radd A, fodd bynnag, yn uwch yn Lloegr. Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng Cymru a Lloegr o ran y gyfradd llwyddiant yn gyffredinol.
- Mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghymru, mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched yn y graddau uwch (A-C) wedi gostwng ers ffigyrau 2008. Yng Nghymru, bach iawn yw'r bwlch rhwng bechgyn a merched sy'n cael gradd A. Yn Lloegr, mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched wedi lleihau ychydig.

Mae tabl 1 yn dangos y canlyniadau dros dro ar gyfer myfyrwyr Cymru a Lloegr yn yr arholiadau Safon Uwch yn 2009, a dangosir y data cymharol ar gyfer 2008 yn nhabl 2.

**Tabl 1: Canran y disgyblion a lwyddodd yn eu arholiad Safon Uwch, yn ôl graddau, 2009**

| | Nifer a safodd Yr arholiad | A | A-C | A-E |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | |
| Merched | 21,225 | 25.3 | 78.6 | 98.2 |
| Bechgyn | 17,208 | 24.5 | 74.0 | 96.9 |
| Disgyblion i gyd | 38,433 | 25.0 | 76.5 | 97.6 |
| **Lloegr** | | | | |
| Merched | 418,161 | 27.4 | 77.0 | 98.0 |
| Bechgyn | 359,009 | 25.4 | 71.8 | 96.9 |
| Disgyblion i gyd | 777,170 | 26.5 | 74.6 | 97.5 |

Ffynhonnell: Cyd-gyngor Cymwysterau

[1] Dros dro yn yr ystyr bod y data'n dangos y sefyllfa pan gyhoeddwyd y canlyniadau. Bydd angen gwirio'r data cyn cyhoeddi'r data terfynol.

**Tabl 2: Canran y disgyblion a lwyddodd yn eu arholiadau Safon Uwch, yn ôl graddau, 2008**

| | Nifer a safodd yr arholiad | A | A-C | A-E |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | |
| Merched | 20,710 | 25.6 | 78.7 | 98.1 |
| Bechgyn | 16,126 | 22.1 | 72.1 | 96.9 |
| Disgyblion i gyd | 36,836 | 24.1 | 75.8 | 97.6 |
| **Lloegr** | | | | |
| Merched | 409,911 | 26.6 | 75.8 | 97.7 |
| Bechgyn | 350,970 | 24.4 | 70.5 | 96.5 |
| Disgyblion i gyd | 760,881 | 25.6 | 73.4 | 97.2 |

Ffynhonnell: Y Cyd-gyngor Cymwysterau

## 2. TGAU

Cyhoeddwyd canlyniadau dros dro TGAU 2009 ar 27 Awst 2009.

- Yn Lloegr, bu cynnydd yn y nifer a enillodd raddau A-G rhwng 2008 a 2009. Yng Nghymru, bu cynnydd yn y nifer a enillodd raddfa A*-C ac A*-G, roedd y nifer a enillodd y graddau uchaf, sef A*-A yr un fath ag yr oedd yn 2008.
- Roedd canlyniadau disgyblion yn Lloegr ychydig yn well na chanlyniadau disgyblion yng Nghymru yn yr holl raddau.
- Mae merched yn parhau i ennill mwy o'r graddau uchaf na bechgyn, ond nid oes cymaint o wahaniaeth yn y gyfradd llwyddiant yn gyffredinol.

Mae Tabl 3 isod yn dangos canlyniadau cyrsiau TGAU llawn yng Nghymru a Lloegr yn 2009 ac mae Tabl 4 yn dangos data cymharol ar gyfer 2008.

**Tabl 3: Canran y disgyblion a enillodd TGAU yn ôl graddau, 2009 (dros drol)**

| | Nifer a safodd yr arholiad | A*-A | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | |
| Merched | 153,999 | 21.8 | 69.2 | 98.7 |
| Bechgyn | 147,048 | 16.0 | 61.6 | 98.3 |
| Disgyblion i gyd | 301,047 | 18.9 | 65.6 | 98.5 |
| **Lloegr** | | | | |
| Merched | 2,522,233 | 24.3 | 70.3 | 98.9 |
| Bechgyn | 2,461,232 | 18.7 | 63.4 | 98.3 |
| Disgyblion i gyd | 4,983,465 | 21.5 | 66.9 | 98.6 |

Ffynhonnell: Y Cyd-gyngor Cymwysterau

**Tabl 4: Canran y disgyblion a enillodd TGAU yn ôl graddau, 2008**

| | Nifer a safodd yr arholiad | A*-A | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | | | | |
| Merched | 158,125 | 21.6 | 68.6 | 98.6 |
| Bechgyn | 151,964 | 16.2 | 61.4 | 98.3 |
| Disgyblion i gyd | 310,089 | 18.9 | 65.0 | 98.4 |
| **Lloegr** | | | | |
| Merched | 2,611,296 | 23.4 | 69.0 | 98.7 |
| Bechgyn | 2,555,332 | 17.9 | 61.8 | 98.1 |
| Disgyblion i gyd | 5,166,628 | 20.6 | 65.5 | 98.4 |

Ffynhonnell: Y Cyd-gyngor Cymwysterau

## 3. Bagloriaeth Cymru

Cafodd Diploma Canolradd ac Uwch Bagloriaeth Cymru eu treialu gyda myfyrwyr ôl-16 mewn 18 o ysgolion a cholegau o fis Medi 2003 ymlaen. Ar ôl gwerthuso'r cyrsiau, cafodd y cymhwyster ei gyflwyno'n llawn i 76 canolfan ar hyd a lled Cymru o fis Medi 2007 ymlaen.

Cafodd Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru (14-19 oed) a'r Diploma Canolradd (14-16 oed) eu treialu rhwng mis Medi 2006 a mis Awst 2009.

O fis Medi 2009 ymlaen, bydd 168 o ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant, yn cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar y tair lefel, i oddeutu 30,000 o fyfyrwyr, fel rhan o'r broses o gyflwyno'r cymhwyster llawn.

Mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnwys dwy ran; rhan 'Ddewisol' a rhan 'Graidd' ac mae'r cymhwyster ar gael ar dair lefel. Rhaid i ran 'Ddewisol' Bagloriaeth Cymru gael ei chwblhau gan fyfyrwyr sy'n astudio ar bob lefel, ac mae'n cynnwys dewisiadau sy'n cael eu dewis o gyrsiau/rhaglenni sefydledig, cymeradwy (er enghraifft, cyrsiau TGAU, TGAU Galwedigaethol, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, Safon Uwch Galwedigaethol).

Mae 'Rhaglen Graidd' y Fagloriaeth yn cynnwys rhaglen o astudiaethau datblygiad personol, ac mae angen i'r myfyrwyr eu cwblhau law yn llaw â'r dewisiadau. Mae elfennau'r 'Rhaglen Graidd' wedi'u gosod allan isod, a chaiff y rhaglen ei hasesu ar y dystiolaeth y bydd y myfyrwyr yn ei chasglu wrth ei chwblhau, a hynny'n unig.

- Sgiliau Allweddol - bydd myfyrwyr yn datblygu Sgiliau Allweddol trosglwyddadwy drwy'r pedair elfen arall a amlinellir isod, yn ogystal ag o'u dewisiadau.
- Cymru, Ewrop a'r Byd - cyfle i ddysgu mwy am Gymru a'i pherthynas ag Ewrop a'r Byd. Mae modiwl iaith ar lefel sy'n addas ar gyfer y myfyriwr yn cael ei gynnwys yn hyn.
- Addysg Cysylltiedig â Gwaith – yn cynnwys gweithio gyda chyflogwr a chymryd rhan mewn menter fel rhan o dîm i helpu'r myfyriwr i ddeall sut y mae busnes yn gweithio.
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol – yn helpu'r myfyriwr i ymchwilio i'r byd cyfoes: y teulu, iechyd, perthnasoedd, dinasyddiaeth a datblygu cynaliadwy. Mae'n cynnwys gweithgaredd yn y gymuned leol.
- Ymchwiliad personol – cyfle i'r myfyriwr gynnal ymchwiliad personol i faes sydd o ddiddordeb iddo.

### 3.1 Diplomâu Canolradd a Sylfaen

Dyfarnodd CBAC Ddiploma Canolradd Bagloriaeth Cymru yn yr haf am y chweched tro, a’r Diploma Sylfaen am y pedwerydd tro ar 27 Awst 2009. Mae natur gronnus Bagloriaeth Cymru'n golygu y bydd llawer o ymgeiswyr nad ydynt eto wedi ennill y Dystysgrif Graidd neu Ddiploma llawn yn gallu gwneud hynny, cyn belled â'u bod yn cyflawni'r rhannau o'r cymhwyster sy'n weddill yn y flwyddyn academaidd i ddod. Mae tabl 5 yn dangos dyfarniadau’r Diploma Sylfaen yn yr haf ac mae Tabl 6 yn dangos dyfarniadau’r Diploma Canolradd yn yr haf.

Ar gyfer 2008 a 2009, mae’r crynodeb a ganlyn yn seiliedig ar y ffigyrau a gyhoeddodd CBAC ar y diwrnod y cyhoeddwyd y canlyniadau.

### 3.2 Sylfaen

- Mae nifer yr ymgeiswyr ar y lefel Sylfaen wedi parhau i gynyddu.
- Yn 2008, cwblhaodd 93 y cant o ymgeiswyr y rhaglen Sylfaen, gostyngodd hyn i 82 y cant yn 2009.
- Yn 2008, dyfarnwyd y Diploma Sylfaen i 44 y cant o’r rheiny a gwblhaodd y rhaglen. Y ffigur cyfafebol ar gyfer 2009 yw 64 y cant.
- Yn 2008, dyfarnwyd y Dystysgrif Graidd i 62 y cant o’r rheiny a gwblhaodd y rhaglen o’i gymharu â 77 y cant yn 2009.

**Tabl 5: Dyfarniadau Diploma Sylfaen Bagloriaeth Cymru, 2008 a 2009**

| | Haf 2008 | Haf 2009 |
|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr | 1,085 | 1,726 |
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 1,013 | 1,414 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Diploma Sylfaen | 450 | 910 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Dystysgrif Graidd | 626 | 1,085 |

Ffynhonnell: CBAC

### 3.3 Canolradd

- Mae nifer yr ymgeiswyr ar y lefel Ganolradd wedi mwy na dyblu ers 2008.
- Yn 2008, cwblhaodd 90 y cant o’r ymgeiswyr y rhaglen Ganolradd. Yn 2009, cwblhaodd 88 y cant o’r ymgeiswyr y rhaglen.
- Yn 2008, dyfarnwyd y Diploma Canolradd i 51 y cant o’r rheiny a gwblhaoedd y rhaglen. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2009 yw 58 y cant.
- Yn 2008, dyfarnwyd y Dystysgrif Graidd i 63 y cant o’r rheiny a gwblhoedd y rhaglen. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2009 yw 71 y cant.

**Tabl 6: Dyfarniadau Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, 2008 a 2009**

| | Haf 2008 | Haf 2009 |
|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr | 1,309 | 2,646 |
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 1,173 | 2,319 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Diploma Canolradd | 603 | 1,346 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Dystysgrif Graidd | 735 | 1,640 |

Ffynhonnell: CBAC

### 3.4 Uwch Ddiploma

Dyfarnodd CBAC Ddiploma Canolradd Bagloriaeth Cymru am y pumed tro fis Awst eleni.

- Bu cynnydd o 1,562 yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer yr Uwch Ddiploma.
- Yn 2008, cwblhaodd 89% o'r ymgeiswyr y rhaglen, gostyngodd hyn i 86% yn 2009.
- Dyfarnwyd yr Uwch Ddiploma i 72% o'r rheiny a gwblhaodd y rhaglen yn 2008, yn 2009 cynyddodd hyn i 80%.

**Tabl 7: Dyfarniadau Uwch Ddiploma Bagloriaeth Cymru, 2008 a 2009**

| | Haf 2008 | Haf 2009 |
|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr | 1,857 | 3,419 |
| Ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen | 1,654 | 2,936 |
| Ymgeiswyr a enillodd yr Uwch Ddiploma | 1,186 | 2,341 |
| Ymgeiswyr a enillodd y Dystysgrif Graidd | 120 | 164 |

Ffynhonnell: CBAC

## 4. Ffynonellau gwybodaeth

Data dros dro yw hwnnw ar gyfer 2009 yn ystyr eu bod yn dangos y sefyllfa ar yr adeg pan gyhoeddwyd y canlyniadau. Bydd angen gwirio'r data cyn cyhoeddi'r data terfynol ar lefel genedlaethol (Cymru), ar lefel awdurdodau lleol a'r ysgolion. Fel arfer, caiff data awdurdodau lleol ei gyhoeddi fis Tachwedd bob blwyddyn.

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau wedi cyhoeddi data dros dro ar gyfer Dyfarniadau Safon Uwch, Uwch Gyfrannol a'r Dyfarniad Uwch Estynedig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ar wahân a gyda'i gilydd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ganlyniadau yn ôl graddau a rhyw. Mae modd gweld y data hwn, ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol, yma. Mae'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau'n cyhoeddi data tebyg ar gyfer TGAU Cymhwysol a'r Dystysgrif Lefel Mynediad, ac mae modd eu gweld yma.

Mae'r Cyd-bwyllgor Canlyniadau'n rhyddhau datganiadau i'r cyfryngau ar un diwrnod ag y caiff y canlyniadau eu cyhoeddi. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys data ar gyfer arholiadau a ddyfernir gan CBAC a data ar gyfer yr holl gyrff dyfarnu. Mae'r datganiad ar gyfer arholiadau Safon Uwch, Uwch Gyfrannol, y Dyfarniad Uwch Estynedig a chymhwyster Bagloriaeth Cymru i'w gweld yma. Mae'r datganiad mewn perthynas â TGAU, Cymwysterau Lefel Mynediad a Diplomâu Canolradd a Sylfaen Bagloriaeth Cymru i'w weld yma.

Mae data 2008 ar gyfer Cymru, ar lefel awdurdodau lleol i'w weld yng nghyhoeddiad Cyfarwyddiaeth Ystadegau Llywodraeth Leol, sef *Examination Results in Wales 2007/08*. Caiff datganiad tebyg, yn cynnwys data ar gyfer 2009, ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2009.